**Teitl: Tlodi (Drygioni yn y byd)**

<table>
<tr><td>Teitlau</td><td>Pam mae tlodi’n bodoli?</td><td>Qatar a Chwpan y Byd</td><td>Ymateb elusennau i dlodi</td></tr>
<tr><td>Rhesymeg</td><td colspan="3">YMWADIAD: Mae'r Nodiadau i Athrawon wedi'u diweddaru er mwyn gallu defnyddio'r adnodd drwy Gwricwlwm i Gymru. Wedi dweud hynny, mae cynnwys yr erthyglau wedi'i archifo ac nid yw'r wybodaeth wedi'i diweddaru. Mae'r erthyglau yn cael eu cadw ar y wefan gan fod y cynnwys yn parhau i fod yn berthnasol i Gwricwlwm i Gymru: Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg.<br><br>Pedwar diben 'Cwricwlwm i Gymru - Cwricwlwm am Oes'<br>Drwy ddysgu am dlodi a drygioni yn y byd fel rhan o'u gwersi addysg Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg, bydd cyfleoedd i ddysgwyr ddatblygu yn:<br>• Ddysgwyr uchelgeisiol, galluog sy'n gallu egluro'r syniadau a'r cysyniadau maen nhw'n eu dysgu;<br>• Unigolion iach a hyderus sydd â gwerthoedd cadarn ac sy'n sefydlu eu credoau ysbrydol a moesol;<br>• Cyfranogwyr mentrus, creadigol sy'n rhoi o'u hegni a'u sgiliau er budd pobl eraill;<br>• Dinasyddion moesol, dysgedig a fydd yn ymgysylltu â materion cyfoes yn seiliedig ar eu gwybodaeth a'u gwerthoedd.<br><br>Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn y Cwricwlwm i Gymru<br>Drwy ddarllen a defnyddio'r erthyglau yn eu gwersi Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg, caiff dysgwyr gyfleoedd i:<br><br>• Ymgysylltu â chwestiynau athronyddol a thyngedfennol, a'u harchwilio<br>• Ymgymryd ag ymholiadau ac ymgysylltu â ffynonellau o ddoethineb ac athroniaethau<br>• Datblygu a mynegi eu safbwyntiau dysgedig eu hunain<br>• Defnyddio eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth am safbwyntiau byd-eang crefyddol a heb fod yn grefyddol i feddwl yn feirniadol am eu gwerthoedd eu hunain<br>• Archwilio'r ffyrdd mae argyhoeddiadau athronyddol crefyddol a heb fod yn grefyddol wedi dylanwadu ar brofiad dynol drwy gydol hanes<br>• Gwerthuso amrywiaeth o ffynonellau crefyddol a heb fod yn grefyddol a defnyddio tystiolaeth ohonynt i ymgysylltu â materion moesegol a moesol<br>• Archwilio credoau ac arferion pobl yn eu cymuned, yng Nghymru ac yn y byd ehangach ac ymateb yn sensitif iddynt<br>• Datblygu gwerthoedd cadarn a sefydlu eu credoau moesol a'u hysbrydolrwydd<br>• Trafod eu persbectifau eu hunain a phersbectifau eraill, a myfyrio arnynt</td></tr>
</table>

| Teitlau | Pam mae tlodi'n bodoli? | Qatar a Chwpan y Byd | Ymateb elusennau i dlodi |
|---|---|---|---|
| | **Y lens Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg**<br>Drwy ddarllen a defnyddio'r erthyglau yn eu gwersi Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg, caiff dysgwyr gyfleoedd i archwilio amrywiaeth o gysyniadau yn ymwneud â Chrefydd, Gwerthoedd a Moeseg drwy'r **is-lensys isod:**<br>• Chwilio am ystyr a diben;<br>• Y byd naturiol a phethau byw;<br>• Hunaniaeth a pherthyn;<br>• Awdurdod a dylanwad;<br>• Perthnasoedd a chyfrifoldeb;<br>• Gwerthoedd a moeseg;<br>• Taith bywyd;<br><br>*Noder bod Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn cael eu pennu'n lleol drwy faes llafur cytunedig. Mae gan bob awdurdod lleol ei faes llafur cytunedig ei hun ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg y mae'n rhaid i ysgolion ei ystyried. Mae pob maes llafur sydd wedi'i gytuno wedi ystyried fframwaith y Cwricwlwm i Gymru a chanllawiau Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg y cyfeirir atynt uchod ac isod.<br><br>**Dolenni Defnyddiol:**<br><br>**Canllawiau Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg - https://hwb.gov.wales/curriculum-for-wales/humanities/designing-your-curriculum/#religion,-values-and-ethics-guidance**<br>**Canllawiau Dyniaethau Hwb - https://hwb.gov.wales/curriculum-for-wales/humanities**<br>**Datganiadau o'r hyn sy'n bwysig - https://hwb.gov.wales/curriculum-for-wales/humanities/statements-of-what-matters/**<br>**Themâu Trawsgwricwlaidd - https://hwb.gov.wales/curriculum-for-wales/humanities/designing-your-curriculum/#cross-cutting-themes** | | |

| Teitlau | Pam mae tlodi'n bodoli? | Qatar a Chwpan y Byd | Ymateb elusennau i dlodi |
|---|---|---|---|
| **Geirfa allweddol** | 6 prif grefydd y byd - Teitl ambarél ar gyfer y 6 crefydd mwyaf / mwyaf poblogaidd yn y byd (yn cynnwys Hindŵaeth, Iddewiaeth, Cristnogaeth, Islam, Bwdhaeth a Siciaeth).<br><br>Aryaidd - Indo-Ewropeaid a feddiannodd Gogledd India yn yr ail fileniwm CC.<br><br>Brahmin - Yr offeiriaid o fewn y system cast.<br><br>Creawdwr - Bod goruwchnaturiol a greodd y byd yn ôl rhai.<br><br>Dana - Rhoi<br><br>Dinasyddiaeth Fyd-eang - Cyfrifoldeb i edrych ar ôl ein byd.<br><br>Hindŵaeth - Yr hynaf o holl brif grefyddau'r byd.<br><br>Anghydraddoldeb - Cael eich trin yn wahanol oherwydd ffactor(au) penodol.<br><br>Kshatriya - Y rhyfelwyr o fewn y system cast.<br><br>Tlodi - Diffyg arian ac adnoddau.<br><br>Braint - Hawl neu fantais arbennig oherwydd pwy ydych chi.<br><br>Crefydd - Set o gredoau sy'n aml yn cynnwys addoli pŵer goruwchddynol sy'n rheoli (Duw).<br><br>Sewa UK - Elusen Hindŵaidd Indiaidd sydd | Cwpan Pêl-droed y Byd – cystadleuaeth a drefnir bob pedair mlynedd rhwng gwledydd y byd. Rhaid chwarae nifer o gemau rhagbrofol i gyrraedd y rowndiau terfynol<br><br>Wal Goch – yr enw a roddir ar gefnogwyr Cymru<br><br>Doha – prifddinas Qatar<br><br>Arabeg – iaith Semitig yr Arabiaid, a siaredir gan tua 150 miliwn o bobl ledled y Dwyrain Canol a Gogledd Affrica.<br><br>'Arabaidd yw rhywun o genhedloedd y Dwyrain Canol a Gogledd Affrica lle mae Arabeg yn brif iaith.'<br><br>Ansoddair<br><br>yn ymwneud â llenyddiaeth neu iaith pobl Arabaidd. 'Llenyddiaeth Arabeg'.<br><br>Cosb – cosb am wneud rhywbeth sydd yn erbyn cyfraith neu reol.<br><br>Brenhiniaeth lled-gyfansoddiadol - brenhiniaeth lle mae'r brenin/ frenhines yn rheoli yn ôl cyfansoddiad democrataidd ond yn dal i gadw pwerau sylweddol.<br><br>Emir – gair Arabeg am bennaeth y wladwriaeth<br><br>Mudiad Wahabistaidd Mwslemiaeth Salafi – mudiad sy'n rhan o Islam Sunni ac yn | Tlodi – byw heb anghenion bywyd o ran bwyd, dillad a chartref.<br><br>Tegwch – sefyllfa lle mae pawb yn cael eu trin yr un fath o ran gofal ac anghenion bywyd.<br><br>Enwadau - amrywiol grwpiau o fewn crefydd, Cristnogaeth fel arfer.<br><br>Masnach Deg – trefn o fasnachu lle mae'r sawl sy'n cynhyrchu'r bwyd yn cael eu trin a'u talu'n iawn.<br><br>Gwrthdaro – sefyllfa o fethu cyd-fyw oherwydd rhyfel ac anghytundebau o bob math. |

| Teitlau | Pam mae tlodi'n bodoli? | Qatar a Chwpan y Byd | Ymateb elusennau i dlodi |
|---|---|---|---|
| | wedi'i lleoli yn y DU.<br><br>Swdra - Y gwerinwyr o fewn y system cast.<br><br>System - Cyfres o bethau a roddir yn eu lle.<br><br>Y system cast - Trefn o grwpiau cymdeithasol o fewn India/Hindŵaeth. Traddodiad - Arfer hir-sefydledig a gaiff ei phasio drwy'r cenedlaethau.<br><br>Anghyffyrddadwy - Y rhai a ystyrir yn alltudion o fewn y system cast. Ysgubwyr strydoedd, glanhawyr fel arfer...)<br><br>Vaishya - Y masnachwyr/tirfeddianwyr o fewn y system cast. | ffwndamentalaidd o ran natur<br><br>Sharia - cyfraith grefyddol Islam sy'n rhoi arweiniad i Fwslim ynglŷn â sut y dylai fyw. Mae'n deillio o'r Qu'ran a'r Hadith<br><br>FIFA – y corff sy'n rheoli pêl-droed y byd<br><br>Amnest Rhyngwladol – mudiad sy'n ceisio sicrhau hawliau dynol ym mhob gwlad<br><br>System nawdd kafala - y system sy'n creu tlodi ac anghyfiawnder yn Qatar lle mae'r gweithiwr yn cael eu noddi gan y cyflogwr ac felly'n ddyledus iddo<br><br>Ymfudwyr – pobl sy'n symud o un wlad i'r llall yn bennaf i chwilio am waith neu safon gwell o fyw. | |
| **Geiriau chwilio** | Brahmin<br><br>Hindŵaeth<br><br>Anghydraddoldeb<br><br>Kshatriya<br><br>Tlodi<br><br>Braint<br><br>Crefydd<br><br>Swdra<br><br>System | Qatar<br><br>Gwlff Persia<br><br>Cwpan Pêl-droed y Byd<br><br>Wal Goch<br><br>Doha<br><br>Emir<br><br>Sharia<br><br>FIFA<br><br>Alcohol | Tlodi<br><br>Tegwch<br><br>Enwadau<br><br>Masnach Deg<br><br>Gwrthdaro |

| **Teitlau** | **Pam mae tlodi'n bodoli?** | **Qatar a Chwpan y Byd** | **Ymateb elusennau i dlodi** |
|---|---|---|---|
| | Traddodiad<br><br>Anghyffyrddadwy<br><br>Vaishya | Amnest Rhyngwladol<br><br>Tlodi<br><br>Gweithwyr<br><br>Caeau pêl-droed<br><br>Ymfudwyr<br><br>Islam<br><br>Caethwasanaeth | |
| **Tasgau** ymestynnol | | | |
| Tasgau dosbarth | 1. Er mwyn ennyn dealltwriaeth o ba waith elusennol a wneir gan Sewa UK, darllenwch 'Intern Blog' ar eu gwefan. Ceir amrywiaeth y gallwch ddewis ohonynt! Atodir dolen isod<br><br>Youth For Sewa – Engage \| Discover \| Serve<br><br>2. Ewch lawr i dudalen 8 i weithgaredd ar y System Cast. | 3. Dyluniwch daflen ar gyfer y rhai fydd yn ymweld â Qatar yn ystod Cwpan y Byd gan dynnu sylw at rai o'r pethau pwysicaf sy'n perthyn i'r wlad honno<br><br>4. Ymchwiliwch ymhellach i gredoau Mudiad Wahabistaidd Mwslemiaeth Salafi<br><br>5. Ysgrifennwch erthygl yn dadlau na ddylai pobl fynd i Qatar i gefnogi cymdeithas lle mae anghyfiawnder mor amlwg.<br><br>6. Dychmygwch eich bod yn weithiwr sydd wedi cyrraedd Qatar i weithio ar un o'r caeau pêl-droed ac ysgrifennwch lythyr adref yn disgrifio'r amgylchiadau. | 1. Ymchwiliwch i rai o elusennau'r stryd fawr e.e. Oxfam, Tŷ Gobaith, Cancer Research/Ymchwil Cancr, Ambiwlans Awyr. Beth am ddewis y rhai a welir yn eich ardal chi? Beth yw bwriad a beth sy'n ysgogi gwaith yr elusennau yma?<br><br>2. Casglwch wybodaeth ar un agwedd o waith Cymorth Cristnogol neu Cymorth Islamaidd e.e. Cymorth Tymor Byr/Hir, Masnach Deg, Gwella Darpariaeth Meddygol/Addysgol.<br><br>3. Mae Wythnos Cymorth Cristnogol ym mis Mai yn cael cryn sylw bob blwyddyn. Yn 2022 rhoddwyd sylw i fywyd y gwragedd Janet a Jessica yn Zimbabwe. Cyflwynwch natur eu bywydau ar ffurf o'ch dewis chi: |

| Teitlau | Pam mae tlodi'n bodoli? | Qatar a Chwpan y Byd | Ymateb elusennau i dlodi |
|---|---|---|---|
| | | 7. Ymchwiliwch ymhellach i gyfraith sharia a thrafodwch a yw'n addas ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain<br><br>8. Lluniwch flog – Qatar a chwpan y byd. | Poster, Darlun, Monolog, Map Meddwl - dewiswch chi!<br><br>4. Mae'r elusen Teams4U wedi ei leoli yn ardal Wrecsam. Casglwch wybodaeth am gefndir yr elusen hon a'r hyn sydd yn ysgogi'r gwaith.<br><br>5. 'Gadewch i blant bychain ddyfod ataf fi' oedd geiriau Iesu. I ba raddau mae gwaith Teams4U yn Wcrain yn dilyn y geiriau yma mewn ffordd ymarferol. |
| **Adnoddau pellach** | | | |

Pwy ydy'r Brahmin?

Pwy yw'r Kshatriya?

Pwy ydy'r Vaishya?

Lluniwch ddiagram o'r System Cast:

Pwy ydy'r Swdra?

Pwy ydy'r anghyffyrddadwy?

HER: Allwch chi feddwl am unrhyw fanteision o'r System Cast?

HER: Allwch chi feddwl am unrhyw anfanteision o'r System Cast?